SUL CYFFREDIN 27

DOETHINEB SOLOMON 3:1-9; ESEIA 25:6-9; SALM 24; DATGUDDIAD 21:1-6A; IOAN 11:32-44

● Gweddi agoriadol

Ymunwn ym moliant
y saint ym mhob oes
yn eu cytgan nefol,
gan weddïo
y cawn ein cyfri, gyda hwy,
ymhlith dy ffyddloniaid
yn y lle hwn
ac yn ein cerdded dyddiol
gyda thi.

● Moliant

Pwy yw dy saint, Arglwydd,
ond y rhai sy'n gwneud dy ewyllys,
sydd â dwylo glân
a chalon bur,
sy'n codi eu croes
a dilyn ble rwyt yn arwain?

Pwy yw dy saint, Arglwydd,
ond y rhai sy'n byw i wasanaethu,
sy'n rhannu dy gariad
a'th ras,
yn cwrdd ynghyd
ac addoli wrth dy draed?

Pwy yw dy saint, Arglwydd,
ond y rhai a fendithiaist
yn y bywyd hwn,
sy'n byw
fel y cânt rannu
tragwyddoldeb gyda thi?

● **Cyffes**
Mae adegau, Arglwydd,
pan deimlwn fel popeth
ond dy saint,
a'n meddyliau,
geiriau a gweithredoedd
heb ddwyn clod i'th enw.

Mae adegau, Arglwydd,
pan yw'n ffydd yn brwydro
i oroesi,
a'n meddyliau
yn dechrau amau
a ydym yn teithio ar ein pen ein hunain.

Maddau'r amserau, Arglwydd,
pan faglwn
ar y ffordd,
a, thrwy dy ras,
tania'r sbarc ffydd
i'n tynnu nôl atat ti.

● Diolch

Mae dy air yn addo
nef newydd
a daear newydd,
ble cei unwaith eto
gerdded yn dy ardd,
fel yn Eden.

Mae dy air yn addo
dim mwy o ddagrau
a dim mwy o boen,
wrth i'r hen fynd heibio
a chroesawu'r newydd
a thithau yn frenin.

Am yr addewid yn dy air
a'r datguddiad
o'r hyn sydd i ddod
i'th blant
sy'n cerdded y ddaear,
rhown ein diolch cywir.